

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR TRWYDDEDU **(YN GWEITHREDU YN UNOL Â'I SWYDDOGAETH O DAN** **DDEDDF TRWYDDEDU 2003)**

Cofnodion o'r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Mawrth 25 Gorffennaf 2017 am 4:30pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Fox – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

M. Diamond	S. Morgans
L. Jones	E. Webster
W. Lewis	D. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P. J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Mr P. Nicholls – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Ymglyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymuned a Phlant
Mr G. Black – Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr L. Morgan – Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu

1. CYFLWYNIADAU

Cyflwynodd Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu aelodau o'i garfan Trwyddedu i'r Pwyllgor Trwyddedu.

2. YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. A. Bradwick, A. Cox, S. Powderhill, a T. Williams.

3. DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant personol yn ymwneud â'r agenda.

4. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD – I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

5. COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu (yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003), a gafodd ei gynnal ar 17 Ionawr 2017, yn rhai cywir.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH – IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD

6. ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor. Roedd yn adroddiad chwarterol ar faterion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, ynghyd â materion ategol sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Cafodd ei adrodd bod nifer uwch o Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ('TEN') (Atodiad 1A) yn adlewyrchu nid yn unig y cyfnod adrodd hirach – o 26 Rhagfyr 2016 tan 9 Gorffennaf 2017 – ond, hefyd, y cynnydd yn nifer y digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer dathlu Taith Llewod Prydain ac Iwerddon a nifer y ceisiadau gan glybiau aelodau preifat ar gyfer cynnal partïon a digwyddiadau elusennol.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – adroddiad ar ganlyniad y pedwar cais a oedd yn destun gwrthwynebiad, ac oedd wedi eu penderfynu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod pob un o'r 25 o brofion gwerthiannau dan oed, a gafodd eu cynnal gan y gwasanaeth Safonau Masnach, wedi eu gwrthod yn llwyddiannus.

O dan y pennawd Cwynion, Cyngor a Chyfarwyddyd, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – wybod i'r Pwyllgor am y cwynion a/neu'r ceisiadau oedd wedi dod i law o bob rhan o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, ac roedd crynodeb o hynny er gwybodaeth.

Cafodd rhagor o'r wybodaeth ddiweddaraf ei rhoi ynglŷn â'r hyfforddiant ar gyfer Aelodau/Swyddogion a'r Bartneriaeth Alcohol yn y Gymuned yn y Porth. Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at y cylchlythyr materion Alcohol/Gamblo (Atodiad 1C) a fydd yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol i gynnig arweiniad a chymorth i safleoedd trwyddedig ynglŷn â nifer o newidiadau deddfwriaethol a materion yn ymwneud â chydymffurfio â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

O dan Ddeddf Gamblo 2005, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith gorfodi ac, i gloi, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oes fawr o newid yn sefyllfa Deddf Gamblo 2005 oherwydd natur sefydlog y fasnach a chadarnhau bod adennill ffioedd blynyddol yn 100% o hyd.

Yn dilyn cwestiynau gan y Pwyllgor, a'r ymatebion gan y Swyddogion perthnasol, **PENDERFYNWYD:-**

- I. Nodi cynnwys yr adroddiad ar faterion **Deddf Trwyddedu 2003**, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth;
- II. Nodi cynnwys yr adroddiad ar faterion **Deddf Gamblo 2005**, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth;

7. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH – IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD – SY'N CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG

8. DEDDF TRWYDDEDU 2003 – TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 26 Rhagfyr 2016 tan 9 Gorffennaf 2017 o ran trwyddedau personol a thrwyddedau safleoedd. Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

**A. FOX
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm